Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Adroddiad Rheoleiddio Blynyddol 2016

Grŵp Rheoleiddio'r Dyfodol
Y Gyfarwyddiaeth Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu

Adroddiad Rhif 1

Cynnwys

Rhagair 4

Crynodeb Gweithredol 4

Ein Hegwyddorion Rheoleiddio 7

1. Cyflawni canlyniadau 7

2. Bod yn ddeallus 7

3. Parod i herio 7

4. Defnyddio'r ystod lawn o offerynnau sydd ar gael 7

5. Bod yn hyblyg 8

6. Dod â'r sgiliau / arbenigedd cywir ynghyd 8

7. Bod yn effeithlon ac yn effeithiol 8

8. Bod yn eglur ynghylch yr hyn yr ydym yn ei wneud a pham 8

Trwyddedu 10

Gwasanaeth Trwyddedau 10

Cydymffurfiaeth 11

Perfformiad Gweithredwyr ar Safleoedd Gwastraff Cymeradwy 11

Astudiaeth Achos – Gweithrediadau Gwastraff 13

Perfformiad Gweithredwyr ar Safleoedd Diwydiant, Sylweddau Ymbelydrol a Ffermio Dwys 14

Ffermio Dwys 15

Sylweddau Ymbelydrol 15

Diwydiant 15

Safleoedd sy'n Perfformio'n Wael – Rheoleiddio Diwydiant 16

Safleoedd sy'n Gwella – Rheoleiddio Diwydiant 16

Gorfodi 18

Ymgymeriadau Gorfodi 19

Ein Data 23

Canlyniadau Gorfodi 24

Dim Camau Pellach 24

Cyngor a Chyfarwyddyd 24

Hysbysiadau Cosb Benodedig 25

Sancsiynau Sifil Eraill 25

Rhybudd 26

Rhybudd Ffurfiol 26

Erlyn 27

Gorchmynion a orfodir gan y Llys yn ategol i erlyniad 27

Enillion Trosedd (Cynllun Cymell Adferiad Asedau) 29

Rhagair

Un o swyddogaethau allweddol Cyfoeth Naturiol Cymru yw cymhwyso'r fframwaith rheoleiddio a bennir gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn ceisio gwneud hyn mewn ffordd sy'n sicrhau bod costau gweinyddol rheoleiddio cyn lleied â phosibl i fusnesau cyfreithlon yng Nghymru, ac yn ei gwneud mor rhwydd â phosibl iddynt wneud y peth iawn.

Mae rheoleiddio wedi chwarae rhan bwysig o ran lleihau cyfanswm y gwastraff a'r llygryddion a gynhyrchir gan fusnesau Cymru. Mae wedi helpu i leihau nifer y digwyddiadau lygru difrifol i aer, tir a dŵr, yn ogystal â gwella ansawdd dyfroedd mewndirol ac arfordirol yng Nghymru.

Rydym yn gweithio'n galed i ddiogelu pobl ac adnoddau naturiol Cymru. Rydym hefyd yn ceisio cefnogi busnesau Cymru a thwf cynaliadwy gan dargedu gweithredwyr anghyfreithlon a pherfformwyr gwael.

Dyma ein hadroddiad rheoleiddio blynyddol cyntaf. Mae'r data ynddo ar gyfer blwyddyn galendr 2016, ac eithrio data cydymffurfiaeth a Rheoleiddio Diwydiant sydd ar gyfer 2014–15. Caiff y data a ddefnyddiwyd i lunio'r adroddiad hwn ei echdynnu ar adeg benodol mewn amser er mwyn helpu i gynnal meincnod a'r gallu i gymharu rhwng gwahanol flynyddoedd. Dyma'r unig adroddiad data y byddwn yn ei lunio eleni yn ymwneud â'n gweithgarwch rheoleiddio felly.

Gobeithiaf y bydd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol i chi. Byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwelliannau, neu gynnwys data eraill mewn adroddiadau yn y dyfodol os yw hynny'n ymarferol.

Emyr Roberts
Prif Weithredwr

Crynodeb Gweithredol

Ein diben yw rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng nghyswllt Cymru, a chymhwyso egwyddorion rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol wrth gyflawni ein swyddogaethau, cyn belled ag y bo hynny'n gyson â'u harfer yn briodol.

Rydym wedi nodi sut yr ydym yn diffinio rheoleiddio yng nghyd-destun rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'n hegwyddorion rheoleiddio er mwyn helpu i ddarparu hyn.

Rydym yn diffinio swyddogaeth rheoleiddio a sut y mae hyn yn cyd-fynd â'n diben a'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru, ac yn adeiladu ar ein hegwyddorion rheoleiddio a sefydlwyd eisoes ar fframwaith deddfwriaethol cyffredinol yr ydym yn gweithredu'n unol ag ef.

Dyma ein hegwyddorion rheoleiddio:

Cyflawni canlyniadau Bod yn ddeallus Parod i herio Defnyddio'r ystod lawn o offerynnau sydd ar gael Bod yn hyblyg Dod â'r sgiliau / arbenigedd priodol ynghyd Bod yn effeithlon ac yn effeithiol Bod yn eglur ynghylch yr hyn yr ydym yn ei wneud a pham

Rydym yn esbonio sut y mae ein hegwyddorion rheoleiddio yn diffinio'r themâu ar gyfer ein darpariaeth, sef:

- **Canlyniadau** – Rydym yn dangos sut y mae'r ddarpariaeth effeithiol o reoliadau a deddfwriaeth yn cynnig sail hanfodol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a sut y mae cydnerthedd hirdymor yn dibynnu ar godi safonau trwy drefnau maint;

- **Tystiolaeth** – Rydym yn nodi y byddwn yn defnyddio tystiolaeth reoleiddio i ysgogi ein hymyriadau a'n harloesedd, gan ddefnyddio Rhwydweithiau Ewropeaidd a chysylltiadau â rheoleiddwyr eraill. Rydym yn cyflwyno ein safbwynt o ran ceisiadau am ddata gan weithredwyr;

- **Deall eraill** – Rydym yn nodi ein hymrwymiad i weithio ac ymgysylltu ag eraill, trwy ein grwpiau rhanddeiliaid sefydledig, a gweithio gyda nhw ar newidiadau polisi yn y dyfodol;

- **Deall ein hunain** – Rydym yn dangos y cysylltiad rhwng ein dull a'n gwerthoedd sefydliadol craidd;

- **Offerynnau** – Rydym yn dangos sut y byddwn yn defnyddio'r ymyrraeth reoleiddio gywir yn ôl yr amgylchiadau.

    - Byddwn yn gweithio ar sail y dybiaeth bod y rheini yr ydym yn eu rheoleiddio eisiau cydymffurfio â'r gyfraith ac mai cyfrifoldeb ymgeiswyr a gweithredwyr yw dangos eu cydymffurfiad.

    - Byddwn yn ceisio sicrhau casgliad o ddeunyddiau canllaw eglur, hygyrch a chryno a gweithio gydag eraill i ddatblygu hwn.

    - Byddwn yn eglur ynghylch yr hyn y mae cydymffurfiaeth yn ei olygu ac rydym eisiau trafod â gweithredwyr unrhyw broblemau a allai fod ganddynt o ran cyflawni hyn.

- Byddwn yn annog ac yn cefnogi gwelliant, ac yn cydnabod y rheini sy'n cydymffurfio.
- Byddwn yn eglur am ein polisi gorfodi ac erlyn ac yn llym ar y rheini sy'n anwybyddu'r gyfraith neu'n cymryd cyfleoedd trwy osgoi cydymffurfio.
- Byddwn yn gweithio gyda'r gweithredwyr sy'n cydymffurfio i'n helpu i ymdrin â'r troseddwyr a sicrhau sefyllfa deg i bawb;

- **Trefn** – Rydym yn nodi ein hymrwymiad i fod â'r sgiliau priodol ar waith a bod ein staff yn deall y Cod Rheoleiddwyr. Byddwn yn gweithio gydag eraill i gael gafael at y sgiliau priodol fel y bydd eu hangen arnom. Byddwn yn adennill ein costau yn llawn ac yn sicrhau bod yr incwm o ffioedd a chostau yn cael ei ddefnyddio i ariannu gweithgareddau rheoleiddio ffurfiol yn unig. Byddwn yn parhau i weithio ar ein heffeithlonrwydd a'n heffeithiolrwydd, a byddwn yn sicrhau bod beichiau rheoleiddio ffurfiol cyn lleied â phosibl ac yn annog cydymffurfiaeth a thwf pan fo hynny'n bosibl;
- **Cyfathrebu** – Rydym yn nodi y byddwn yn agored ac yn dryloyw ac yn defnyddio ein Safonau Gwasanaeth Rheoleiddio. Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu ein gwefan yn rhan o ddatblygiad ehangach ein strategaeth gyfathrebu;
- Byddwn yn darparu egwyddorion rheoleiddio da.

Mae ein cyfrifoldebau presennol yn rhoi cyswllt uniongyrchol i ni â thua 1,700 o safleoedd diwydiannol, gwastraff a dŵr ledled Cymru. Rydym wedi caniatáu 10,000 o drwyddedau, 65,000 o drwyddedau gwialen bysgota, 480 o drwyddedau cwympo coed a 100 o drwyddedau morol ers 2013.

Un o'r heriau allweddol yr ydym yn ceisio mynd â'r afael â nhw yw'r hyn a olygir gan reoleiddio mewn gwirionedd. Rydym yn cydnabod bod hyn yn golygu gwahanol bethau i wahanol grwpiau, ond rydym o'r farn bod rheoleiddio yn golygu gwneud rhywbeth sy'n gwneud gwahaniaeth. Nid yw hyn yn ymwneud â'r gyfraith yn unig, mae'n ehangach na hyn a gall gynnwys offerynnau economaidd a gwirfoddol, a'r defnydd o wybodaeth a rhannu gwybodaeth. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod rhaid i ni fod yn eglur am le mae pethau'n ofynnol yn gyfreithiol, a lle yr ystyrir bod pethau'n beth da, neu gywir, i'w wneud. Mae hyn yn rhywbeth yr ydym yn bwriadu ei wneud er mwyn helpu'r rheini yr ydym yn ymwneud â nhw i gadw ar yr ochr gywir o'r gyfraith.

Fodd bynnag, pan fo gofynion cyfreithiol yn bodoli, mae'n rhaid i ni fod yn eglur ei bod yn ofynnol i ni eu cymhwyso. Mae dulliau ategol yn union hynny – ategol. Ni ellir eu defnyddio fel dewisiadau amgen syml pan fydd darpariaeth gyfreithiol yn bodoli. Byddwn yn parhau i gymhwyso gofynion y gyfraith.

O ystyried y cyd-destun eang hwn ar gyfer rheoleiddio, nid yw bob amser yn bosibl y gellir diffinio dulliau ar gyfer pob amgylchiad. Rydym, felly, wedi ceisio mabwysiadu dull egwyddorion, ac wedi diffinio set o wyth egwyddor rheoleiddio, sydd hefyd yn myfyrio ar egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'r dull ecosystem.

Ein Hegwyddorion Rheoleiddio

1. Cyflawni canlyniadau

Byddwn yn cyflawni canlyniadau, nid darparu rheoliadau yn unig, gan geisio cyflawni canlyniadau a rennir lle y gallwn.

Mae hyn yn sicrhau bod y gwaith yr ydym yn ei wneud wedi'i wreiddio yn y ddarpariaeth o ganlyniadau. Mae hyn yn egluro swyddogaeth rheoleiddio fel offeryn yn y ddarpariaeth. Mae hyn yn ein galluogi i ystyried canlyniadau gan fyfyrio ar ddewis cymdeithasol a sut y byddem oll eisiau i'n hadnoddau naturiol a'n hecosystemau weithredu a bod yn gydnerth.

Er enghraifft, trwy ystyried dulliau seiliedig ar ardaloedd (Datganiadau Ardal) i ddarparu canlyniad rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol, gallwn ddeall trwy dreialon y ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio ein sgiliau a'n gwybodaeth ein hunain a phobl eraill. Byddai cyflawni canlyniad o'r fath yn cynnig manteision i bobl, amgylchedd a busnesau Cymru.

2. Bod yn ddeallus

Byddwn yn defnyddio'r holl dystiolaeth sydd ar gael ac yn sicrhau bod y data yr ydym yn ei gasglu yn cyfrannu at y dystiolaeth i lywio gweithredoedd i gyflawni canlyniadau.

Byddwn yn sicrhau ein bod yn casglu ac yn defnyddio data yn effeithlon, gan ofyn am y rhain unwaith yn unig pryd bynnag y bo'n bosibl. Byddwn yn cymhwyso egwyddorion Systemau Gwybodaeth Daearyddol lle bynnag y bo'n bosibl, ac yn defnyddio'r data a gasglwyd i gyflawni camau sydd wedi eu llywio gan wybodaeth. Bydd hyn yn annog y defnydd o fathau a ffynonellau newydd o ddata, gan eu defnyddio ynghyd â thechnegau datrys problemau i greu gwybodaeth. Bydd defnyddio tystiolaeth eang (gwybodaeth a data), gan gynnwys y rheini yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, yn helpu i lywio dulliau seiliedig ar risg ac amlygu'r meysydd o flaenoriaeth ar gyfer gweithredu.

3. Parod i herio

Byddwn yn herio ac yn mynd i'r afael â rhwystrau pan nad ydynt yn cyfrannu at y canlyniad.

Trwy adolygu effeithiolrwydd y ddarpariaeth o ganlyniadau, byddwn yn cael ein hannog i herio'r ffordd yr ydym yn gweithio a sut yr ydym yn cyflawni. Nod hyn hefyd yw ein hannog i nodi ac amlygu rhwystrau posibl rhag cyflawni canlyniadau, a chwilio am ffyrdd o gael gwared ar y rhain.

4. Defnyddio'r ystod lawn o offerynnau sydd ar gael

Byddwn yn defnyddio amrywiaeth eang o offerynnau, gan gynnwys y gyfraith, i ymdrin â'r rheini sy'n gweithredu'n anghyfreithlon er mwyn diogelu busnesau gonest, y gymdeithas a'r amgylchedd.

Byddwn yn manteisio ar becyn cymorth helaeth. Byddwn yn deall effeithiolrwydd yr offerynnau ac ym mha gyd-destun a phryd y dylent gael eu defnyddio orau. Ni fydd offerynnau o'r fath wedi'u cyfyngu o reidrwydd i ddulliau cyfreithiol (rheoleiddio ffurfiol). Byddwn yn defnyddio offerynnau cyfreithiol penodol pan fydd yr amgylchiadau'n cyfiawnhau, a phan mai dyma'r peth iawn i'w wneud.

5. Bod yn hyblyg

Byddwn yn hyblyg ac yn teilwra'r dull i anghenion y derbynnydd.

Mae hyn yn ein hannog i ymgysylltu â chydweithredu, a cheisio sicrhau cyd-ddealltwriaeth o'r hyn y mae angen ei wneud gan ddefnyddio amrywiaeth eang o offerynnau, gan gynnwys defnyddio mecanweithiau'r farchnad. Gallai ymgysylltiad parhaus ac estynedig ymrwymo'r rheini sy'n cymryd rhan i wneud i bethau ddigwydd er budd ehangach. Bydd angen felly i ni ddeall buddiannau a chymhellion y rheini yr ydym yn eu cyfarfod. Byddwn yn cymryd rhan mewn sgwrs, yn datblygu cysylltiadau aeddfed, ac yn osgoi cyfarwyddo yn unig.

Fodd bynnag, bydd angen i ni gydnabod o hyd y bydd angen mwy o help a chymorth i rai nag i eraill. Byddwn yn teilwra'n briodol, gan roi ystyriaeth i'r rheini yr ydym yn ymgysylltu â nhw, ystyried ymddygiadau a gwybodaeth ac, o ran busnesau, bydd angen i ni wybod eu maint, eu sgiliau a'u capasiti. Byddwn yn ceisio meithrin arloesedd a syniadau newydd ac yn cael ein rhwymo llai gan broses hanesyddol neu hen ffiniau daearyddol.

Byddwn yn meddwl am y raddfa ofodol a'r amserlen ar gyfer ein gweithredoedd, a beth allai'r lefel a'r amser mwyaf priodol i wneud pethau fod. Bydd hyn yn ein hannog i ystyried pryd i weithredu ac edrych ar le allai ymyrraeth gynnar neu ataliad sicrhau gwella canlyniadau. Bydd bod yn hyblyg hefyd yn ein galluogi i reoli a chydnabod y ffaith fod newid yn anochel.

6. Dod â'r sgiliau / arbenigedd cywir ynghyd

Byddwn yn sicrhau bod y sgiliau gennym i ddefnyddio'r offerynnau cywir neu i weithio gyda'r rhai sydd â'r sgiliau hynny.

Byddwn yn gweithio gydag eraill pan fydd eu sgiliau a'u hofferynnau yn cyflawni'r canlyniad gorau. Mae hyn yn cynnwys ystyried yr offerynnau y mae eraill yn meddu arnynt ac asesu a fyddent yn ein galluogi i fod yn fwy hyblyg ac effeithiol. Wrth ddefnyddio ein hofferynnau ein hunain, mae'n rhaid i ni sicrhau bod gan ein timau'r sgiliau cywir i'w cymhwyso'n effeithlon ac yn effeithiol. Byddwn hefyd yn sicrhau bod gennym fynediad at y sgiliau a'r wybodaeth gywir fel y gallwn ddeall eraill ac ymgysylltu â nhw'n effeithiol.

7. Bod yn effeithlon ac yn effeithiol

Byddwn yn cyflawni mewn ffordd effeithlon ac effeithiol, gan weithio gydag eraill pan allwn, a phan fo hyn yn beth da i'w wneud.

Byddwn yn esbonio'n eglur beth yw ein safonau gwasanaeth a sut y byddwn yn mesur ein heffeithiolrwydd a'n effeithlonrwydd. Byddwn yn eglur ynghylch sut a ble yr ydym yn gwario ein hincwm ac yn sicrhau bod cydbwysedd priodol rhwng costau i fusnesau a chostau i'r trethdalwr.

8. Bod yn eglur ynghylch yr hyn yr ydym yn ei wneud a pham

Byddwn yn sicrhau bod pawb yn deall ein swyddogaeth yn y fath ffordd ei bod yn hawdd gweld y cysylltiad rhwng yr hyn yr ydym yn ei wneud a pham.

Byddwn yn esbonio'n eglur yr hyn yr ydym yn ei wneud, a pham, mewn iaith ac arddull sy'n golygu rhywbeth. Bydd hyn yn hwyluso natur agored a thryloyw a, phan fyddwn yn ymgynghori, eglurder ynghylch sut y gall hyn hysbysu ein proses o wneud penderfyniadau.



Cyflawni canlyniadau, egwyddorion a themâu

Ni fyddwn, ac ni fyddwn byth yn gallu gwneud yr holl bethau posibl a allai gael eu gofyn gennym. Mae angen mecanwaith arnom felly sy'n cynnig ffordd i ni flaenoriaethu ein gwaith. Un mecanwaith o'r fath yw edrych ar y risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio ag ymyrryd a cheisio ymgymryd â rhyw fath o reoleiddio ffurfiol neu anffurfiol i liniaru'r rhain.

Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i ddilyn dull seiliedig ar risg, ond hefyd yn cydnabod bod angen dilyn y dull hwn yng nghyd-destun rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol. Mae angen felly i ni ddatblygu ein dull risg ymhellach, a oedd yn canolbwyntio'n hanesyddol at risgiau amgylcheddol yn annibynnol ar risgiau cymdeithas ac economaidd eraill. Bydd hyn yn rhan o'n sail dystiolaeth ar gyfer y dulliau yr ydym yn eu dilyn.

Nid yw hyn yn golygu gwanhau'r rheoleiddio ffurfiol angenrheidiol ar gyfer materion uchel eu risg, ond yn hytrach mecanwaith er mwyn helpu i nodi lle mae'r blaenoriaethau, a lle y gellir gwneud yr ymyriadau mwyaf effeithiol yn y ffordd fwyaf effeithlon, gan ddefnyddio arian cyhoeddus ac incwm gan y rhai yr ydym yn eu rheoleiddio'n ffurfiol.

Mae llawer o'n gweithgareddau rheoleiddio ffurfiol yn cymryd hyn i ystyriaeth, ond byddwn yn ymestyn hyn i weithgareddau nad ydynt yn cymhwyso hyn yn llawn eto. Mae angen i'n dull seiliedig ar risg fod yn gyson ar draws ein gweithgareddau rheoleiddio ffurfiol, fel y gallwn dargedu gweithgareddau sy'n cyflwyno'r risg fwyaf. Byddwn yn adolygu ac yn diwygio ein dull o ymdrin â risg ac yn sicrhau bod penderfyniadau yn ymwneud â hyn yn gyson ar draws yr holl drefnau deddfwriaethol a daearyddiaeth.

Trwyddedu

Rydym yn gweithio ar sail y dybiaeth sylfaenol bod y rheini yr ydym yn eu rheoleiddio eisiau cydymffurfio â'r gyfraith, ac y bwriedir i'w ceisiadau am drwyddedau a chamau dilynol yn ymateb i amodau trwydded gyflawni hyn. Mae hyn yn rhoi'r cyfrifoldeb ar ymgeiswyr a gweithredwyr i ddangos eu cydymffurfiaeth. Efallai y bydd rhai angen cymorth gyda hyn, ac mae gennym ni swyddogaeth bwysig o ran helpu ymgeiswyr a gweithredwyr i sicrhau cydymffurfiaeth.

Gwasanaeth Trwyddedau

Mae ein Gwasanaeth Trwyddedu yn cynnwys naw gwahanol drefn, sef: Trwyddedu Rhywogaethau, Trwyddedu Cwympo Coed, Diwydiant a Reoleiddir, RSR, EUETS, Trwyddedu Morol, Gwastraff, Ansawdd Dŵr ac Adnoddau Dŵr.

Mae gennym gyfanswm o 59 o wahanol fathau o geisiadau. Cyflwynwyd cyfanswm o 3992 o geisiadau gennym yn 2016. Ni chyflwynwyd cyfanswm o 250 o geisiadau; dychwelwyd 68, tynnwyd 132 yn ôl, gwrthodwyd 26, dychwelwyd 22 ar y sail nas gwnaed yn briodol, ystyriwyd bod dau wedi cael eu tynnu yn ôl/dychwelyd.

Fe'n hysbyswyd am ganlyniadau pedwar apêl yn 2016. Cyflwynwyd yr apeliadau yn erbyn ein penderfyniadau i wrthod neu beidio â dyfarnu ceisiadau am drwydded. Tynnwyd un apêl yn ôl a gwrthodwyd tri.

Mae amserlenni statudol a lefel gwasanaeth ar gyfer ein ceisiadau am drwyddedau yn amrywio o bedwar mis ar gyfer Trwydded wedi'i Theilwra i ddeg diwrnod gwaith ar gyfer cais Syml Chwynladdwyr Ansawdd Dŵr. Ceir rhestr lawn o'n hamserlenni statudol a lefel gwasanaeth ar ein gwefan.

Cydymffurfiaeth

Perfformiad Gweithredwyr ar Safleoedd Gwastraff Cymeradwy

Rydym o'r farn y bydd arddangos perfformiad da yn y sector gwastraff a reoleiddir a nodi lefelau a rhesymau am berfformiad gwael yn ein helpu i dargedu ymhellach a mynd i'r afael â rhai o'r achosion sylfaenol o berfformiad gwael, ac yn ein helpu i gynnal a chynorthwyo'r busnesau hynny sy'n cefnogi ein nodau.

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried perfformiad cyfleusterau gwastraff cymeradwy yn 2015. Rydym wedi adolygu ac asesu data ar gyfer pob math o gyfleuster gwastraff a reoleiddir gan gynnwys trwyddedau gweithrediadau a gweithfeydd gwastraff, ond heb gynnwys cyfleusterau Gwastraff i Ynni. Mae'r asesiad o berfformiad yn canolbwyntio ar safleoedd Gweithredol yn unig. Mae nifer o drwyddedau wedi'u rhestru yn ein systemau data sy'n anweithredol am wahanol resymau.

Ceir 761 o gyfleusterau gwastraff cymeradwy yng Nghymru. O'r rhain, mae 603 yn weithredol. Gall y rheini sydd wedi eu dosbarthu'n anweithredol fod yn gyfleusterau lle nad oes unrhyw weithgareddau gwastraff gweithredol wedi cychwyn neu mae'r cyfleuster wedi cau. O'r cyfleusterau gweithredol, mae gan 543 drwyddedau gweithrediadau gwastraff ac mae gan 60 drwyddedau gweithfeydd gwastraff. Mae'r trwyddedau gweithredol yn 2015 wedi eu rhannu rhwng y sectorau gwastraff canlynol:

Sector/Is-sector	Cyfanswm y Trwyddedau Gweithredol
Gwastraff Nad yw'n Beryglus (Storio a Thrin)	265
Metelau Eilaidd	130
Tirlenwi	51
Trin Gwastraff Peryglus (Storio a Thrin)	50
Gwastraff Anadweithiol (Storio a Thrin)	51
Defnyddio Biowastraff	34
Trin Biowastraff	22



Dangosir perfformiad cyffredinol ar gyfer safleoedd gweithredol yn y graff isod. Mae'n dynodi bod perfformiad gwael yn gymharol isel fel cyfanswm o safleoedd gweithredol – 6.5% o safleoedd gweithredol.



Mae'n bwysig ein bod yn parhau ymdrechion i leihau nifer y perfformwyr D, E ac F yng Nghymru. Mae perfformiad gwael yn cael llawer o effeithiau gan gynnwys ar yr amgylchedd, cymunedau, enw da sector a busnesau gwastraff cyfreithlon. Ystyrir bod perfformwyr gwael yn peri risg uwch o ddigwyddiadau sy'n cymryd llawer iawn o'n hadnoddau. Mae perfformwyr gwael hefyd yn ddwys o ran adnoddau yng nghyswllt ein hymdrech reoleiddio.

Mae'n rhaid i bob safle D, E ac F fod â chynllun cydymffurfio ar waith sy'n nodi camau â chyfyngiadau amser a gytunwyd gyda'r rheoleiddiwr, i sicrhau bod safleoedd yn gweithio tuag at wella eu perfformiad. Yng Nghymru, roedd gan yr holl safleoedd D, E ac F a nodwyd yn 2015 gynllun gweithredu ar waith ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi bod yn destun camau gorfodi.

Rydym wedi cydnabod trwy gydol blwyddyn gydymffurfio 2015 y gellir gwneud gwelliannau mewn sawl maes, ac rydym bob amser yn ceisio cael gwell dealltwriaeth o'n tirwedd cydymffurfiaeth a'r hyn a all siapio hyn.

Astudiaeth Achos – Gweithrediadau Gwastraff

Wrth i ni reoleiddio safle trin gwastraff nad yw'n beryglus wedi ei leoli yng Ngogledd Cymru, roedd yn amlwg i ni fod y gweithredwr yn cael trafferth i gydymffurfio ag amodau ei drwydded oherwydd seilwaith gwael y safle a'i reolaeth o'r safle.

Gweithiodd ein swyddogion gyda'r gweithredwr hwn i geisio gwella'r sefyllfa, ond cymerwyd camau gorfodi yn erbyn y gweithredwr ar ôl sawl ymdrech aflwyddiannus i roi cyngor a chyfarwyddyd, er mwyn sicrhau bod y perygl i'r amgylchedd lleol cyn lleied â phosibl. Cafodd y gweithredwr ei erlyn wedi hynny a gorchmynnodd y llys iddo gydymffurfio â'i drwydded.

Yn ystod y cyfnod hwn, penderfynodd y gweithredwr werthu'r safle i gwmni Rheoli Gwastraff lleol a oedd â'r asedau a'r profiad angenrheidiol i weithredu'r safle. Gwelwyd hyn fel cyfle i weithio gyda'r gweithredwr newydd i'w alluogi i gydymffurfio â thrwydded y safle o'r cychwyn cyntaf. Arweiniodd hyn at safle a oedd yn perfformio'n wael yn troi'n safle sy'n cydymffurfio a'r seilwaith ac yn cael ei wella'n aruthrol, gan ganiatáu hwyluso busnes gwastraff cystadleuol a ffyniannus a lleihau'n sylweddol y perygl i'r amgylchedd lleol.

Mae'r safle'n parhau i berfformio'n dda ac mae'r berthynas gyda'r gweithredwr newydd yn dal i fod yn dda. Rydym wedi dysgu y gall ymgysylltu â gweithredwyr newydd ar y cyfle cynharaf posibl sicrhau canlyniadau heb yr angen am gamau gorfodi. Mae'r ffotograffau isod yn dangos y safle cyn ac ar ôl.

Cyn

Ar ôl

Perfformiad Gweithredwyr ar Safleoedd Diwydiant, Sylweddau Ymbelydrol a Ffermio Dwys

Rydym yn rheoleiddio ychydig dros 200 o safleoedd diwydiannol a 77 o safleoedd amaethyddol dwys pellach o dan Atodlen 1, Rhan A (1) y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol. Hefyd rheoleiddir tua 100 o safleoedd sydd â thrwyddedau ar gyfer ffynonellau ymbelydrol nad ydynt yn niwclear, a Chyfoeth Naturiol Cymru yw'r Awdurdod Cymwys ar y cyd â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar gyfer 78 o safleoedd sy'n dod o dan reolaeth y Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr.

Caiff safleoedd Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr eu rheoleiddio mewn ffordd wahanol gan nad oes trwydded i reoleiddio yn ei herbyn. Mae swyddogion yn gweithio gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i asesu adroddiad diogelwch y safle a chynnydd yn erbyn unrhyw gamau a argymhellwyd. Hefyd, ceir rhaglen barhaus o ymarferion brys i brofi cynlluniau oddi ar y safle safleoedd Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr Haen Uwch, y bydd swyddogion yn ymwneud â hi. Ni fydd safleoedd Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr yn cael eu hystyried mewn unrhyw fanylder pellach.

Mae rheoleiddio yn cynnwys asesu gwaith monitro allyriadau ac adroddiadau eraill a gyflwynir gan weithredwyr, yn ogystal ag arolygiadau ac archwiliadau safle. Yn unol â'r Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol, mae'n rhaid i safleoedd cymeradwy gael eu harolygu yn dilyn cyfnodau sy'n seiliedig ar risg, gyda'r rhai risg uchaf yn derbyn ymweliad blynyddol a'r rhai risg isaf bob tair blynedd.

O edrych ar bob un o'r 282 o safleoedd, gan gynnwys tirlenwi, trin gwastraff a ffermio dwys, roedd 167 o safleoedd yn berfformwyr Band A. Mae hyn yn cynrychioli 59% o'r safleoedd Atodlen 1 y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol a reoleiddir. Fodd bynnag, roedd 16 o safleoedd ym Mandiau D, E ac F – 6% o'r safleoedd. Mae'r siart dilynol yn dangos dosbarthiad y safleoedd ym mhob band.



Ffermio Dwys

Ceir 77 o ffermydd dofednod dwys yng Nghymru sy'n destun Atodlen 1 y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol. Caiff y rhain eu rheoleiddio gan y timau Rheoli Adnoddau Naturiol lleol. Mae 65 o'r safleoedd hyn yn aelod o'r Cynllun Gwarant Ffermydd sy'n cynnwys archwiliad blynyddol, gan archwilydd achrededig y tu allan i Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae ennill sgôr Band A neu B o'r archwiliadau hyn yn rhoi'r hawl i'r safleoedd hyn dalu ffioedd cynhaliaeth gostyngedig. Mae swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal arolygiadau bob tair blynedd gyda rhaglen arolygu barhaus yn parhau ar gyfer 2017–18. Cofnodwyd diffyg cydymffurfiad yn erbyn 15 o safleoedd yn dilyn archwiliadau Gwarant Ffermydd yn 2015 a bwriedir gwneud gwaith dilynol.

Sylweddau Ymbelydrol

Ceir 94 o safleoedd yng Nghymru sydd â Thrwyddedau Amgylcheddol i gadw ffynonellau ymbelydrol nad ydynt yn niwclear ar eu safleoedd. Arolygwyd 58 yn ystod 2015 o dan raglen seiliedig ar risg lle mae'r safleoedd risg uchaf yn derbyn ymweliad blynyddol a safleoedd risg is yn derbyn ymweliad bob dwy neu bedair blynedd.

Mae diogelwch ffynonellau ymbelydrol yn agwedd bwysig ar y gwaith arolygu hwn, ac mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r Cynghorwyr Diogelwch Gwrthderfysgaeth i sicrhau bod safleoedd yn cynnal eu safonau diogelwch.

Er na nodwyd diffyg cydymffurfiaeth yn 83% o'r safleoedd a arolygwyd, mae dau safle yn B a D sy'n peri pryder ar gyfer y sector hwn. Mae gan sawl safle fwy nag un drwydded, ond mae'r data wedi ei gyfyngu i wybodaeth safle at ddibenion yr adroddiad hwn.

Diwydiant

Ceir 161 o safleoedd sydd â Thrwyddedau Amgylcheddol ar gyfer gweithgareddau Atodlen 1 diwydiannol sydd mewn chwe sector fel y rhestrir yn y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, ac "Eraill" sy'n cynnwys gweithfeydd cyfleustodau nwy, gweithgareddau cysylltiedig yn uniongyrchol a gweithgarwch carbon.

Mae natur amrywiol y safleoedd a reoleiddir yn ei gwneud yn anodd cymharu sectorau yn erbyn ei gilydd. Prin iawn yw'r safleoedd yn y sectorau sment a gwydr, papur a thecstilau a llosgi gwastraff, felly, ni ellir eu hystyried mewn unrhyw ffordd ystadegol. Mae'n ymddangos bod gan y sector cemegau gyfran uchel o safleoedd band A, ond mae hyn yn rhannol yn adlewyrchiad o'r naw safle effaith isel sydd ynddo sydd angen lefel isel o fewnbwn rheoleiddio.

O'r sectorau â niferoedd mawr o safleoedd, hylosgi a phurfeydd oedd y sector a oedd yn perfformio orau gyda 75% o safleoedd ym Mand A; metelau a thriniaeth arwyneb oedd â'r nifer leiaf o safleoedd band A, ar 28%.

Safleoedd sy'n Perfformio'n Wael – Rheoleiddio Diwydiant

Nid oedd unrhyw safleoedd ym mandiau E neu F mewn unrhyw sector diwydiannol yn 2015, a dim ond wyth ym mand D, sy'n golygu mai dim ond 5% a oedd wedi eu categoreiddio fel "perfformwyr gwael".



Roedd y rhesymau am berfformiad gwael yn amrywio o fewn a rhwng y sectorau. Bu digwyddiadau yn nau o'r safleoedd cemegau a arweiniodd at allyriadau i'r awr a aseswyd fel Categori 2 – arwyddocaol. Gwnaed dau asesiad diffyg cydymffurfiaeth Categori 2 arall, un yn y sector metelau lle methodd safle â chael gwared ar wastraff peryglus yn gywir, a'r llall ar gyfer safle yn y sector bwyd a diod a achosodd arogl arwyddocaol oddi ar y safle. Mae camau gorfodi priodol yn cael eu cymryd ar gyfer y digwyddiadau hyn. Roedd gan y pedwar perfformiwr gwael arall ddigon o ddigwyddiadau diffyg cydymffurfiaeth wedi eu hasesu fel Categori 3 i'w rhoi ym Mand D.

Safleoedd sy'n Gwella – Rheoleiddio Diwydiant

Llwyddodd dau safle i wella'n sylweddol yn ystod 2015 gan symud o Fand E i Fandiau B ac C yn eu trefn. Symudodd un arall o Fand D i Fand C. Gellir priodoli'r gwelliannau hyn i swyddogion yn gweithio gyda gweithredwyr i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd pan nodwyd materion diffyg cydymffurfiaeth.

Roedd mwy o safleoedd diwydiannol a oedd yn perfformio'n wael yn ystod 2015 nag yn y flwyddyn cynt, er nad oedd yr un ym Mandiau E neu F. Roedd y rhesymau am berfformiad gwael yn amrywio, bu digwyddiadau ar ddau safle lle gallai allyriadau fod wedi achosi effeithiau oddi ar y safle; roedd gan eraill broblemau lluosog a rodd y safle ym Mand D o'u cyfuno. Y ffactor gyffredin rhwng y cwbl oedd methiant i sicrhau bod amodau'r drwydded yn cael eu bodloni.

Mae'r safleoedd sy'n perfformio orau yn tueddu i fod â systemau rheoli amgylcheddol da sydd wedi eu hymgorffori i'r system reoli gyffredinol ar gyfer y safle, felly mae gweithdrefnau'n cymryd gofynion y drwydded i ystyriaeth.

Roedd nifer sylweddol o achosion o ddiffyg cydymffurfio ag amodau trwyddedau gweinyddol fel cyflwyno adroddiadau monitro yn brydlon neu hysbysu am fethiannau i gadw at y cyfyngiad allyriadau o fewn y cyfnod penodedig. Efallai mai'r rhesymau am y rhain yw diffyg ymwybyddiaeth neu hyfforddiant, ond, unwaith eto, rheolaeth yw'r achos sylfaenol. Byddai llawer mwy o safleoedd yn berfformwyr Band A pe baent yn cydymffurfio â'r amodau hyn.

Rheoleiddio'r Diwydiant Dŵr

Nid ydym yn gallu darparu data ar gyfer 2016 yn yr adroddiad hwn ar hyn o bryd. Rydym wedi sefydlu Grŵp Technegol Dŵr ac yn datblygu system ar gyfer adrodd ein Gwaith Rheoleiddio'r Diwydiant Dŵr a fydd yn cael ei gynnwys yn adroddiadau blynyddol y dyfodol.

Gorfodi

Byddwn yn sicrhau bod ein polisi gorfodi ac erlyn yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd i adlewyrchu ein dealltwriaeth o ymddygiadau'r rheiny rydym yn eu rheoleiddio, a'r hyn y gellir ei wneud er mwyn iddynt gydymffurfio.

Ar begwn eithafol cydymffurfiaeth mae'r rheiny sy'n anwybyddu'r gyfraith, neu sy'n cymryd risgiau drwy osgoi cydymffurfio. Rydym yn cydnabod bod y rheiny sy'n anwybyddu'r gyfraith yn fwriadol yn cael effaith, nid yn unig ar bobl a'r amgylchedd, ond hefyd drwy niweidio ysbryd cystadleuol busnesau cyfreithlon a'u gallu i dyfu. Felly, nid er ein lles ni'n unig y mae'n rhaid cael gwared ar y rhain, ond hefyd er lles busnesau cyfreithlon eraill. Mae rôl glir (a mantais) ar gyfer y parti cydsyniol i'n helpu i fynd i'r afael â throseddwyr, a byddwn yn ceisio cymorth a chefnogaeth mewn modd gweithredol. Byddwn hefyd yn gweithio gydag asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill, oherwydd bod troseddwyr yn debygol o fod yn anwybyddu mwy na chyfraith amgylcheddol yn unig.

Golyga gorfodi unrhyw gamau gweithredu rydym yn eu cymryd lle rydym yn amau bod trosedd wedi digwydd neu, mewn rhai achosion, ar fin digwydd. Gall hyn amrywio o roi cyngor ac arweiniad, cyflwyno rhybuddion i erlyn, neu unrhyw gyfuniad sy'n cyflawni'r canlyniad dymunol orau.

Mewn rhai achosion, dan Reoliadau Difrod Amgylcheddol 2009, efallai y bydd angen cymryd camau gorfodi yn absenoldeb unrhyw drosedd a ddrwgdybir, ond yn y rhan fwyaf o achosion, bydd gweithgaredd sy'n arwain at 'ddifrod amgylcheddol' dan y rheoliadau hefyd yn cael ei ystyried yn drosedd dan ddeddfwriaeth amgylcheddol. Gyda'r ymagwedd gyffredinol hon, lle mae trosedd wedi cael ei chyflawni ac nid yw rhoi cyngor ac arweiniad wedi cyflawni'r canlyniad angenrheidiol, nac yn debygol o wneud hynny, fel arfer byddwn yn ystyried cyflwyno cosb o ryw fath yn ogystal â chymryd unrhyw fesurau ataliol neu gamau gweithredu adferol angenrheidiol i ddiogelu'r amgylchedd neu'r bobl. Ein nod yw defnyddio cosbau sifil a throseddol mewn modd sy'n briodol i'r drosedd, fel y disgrifir yn ein Harweiniad ar Orfodi a Chosbau.

Mae'r opsiynau sydd ar gael i ni'n cynnwys: rhoi cyngor ac arweiniad, cyflwyno rhybudd; hysbysiadau gorfodi statudol a hysbysiadau gwaith; hysbysiadau gwahardd; atal neu ddiddymu trwyddedau amgylcheddol, amrywio amodau trwydded; gwaharddebau; gwneud gwaith adferol; cosbau sifil; cosbau sifil ac ariannol eraill, gan gynnwys hysbysiadau cosb benodedig; cyflwyno rhybudd ffurfiol; erlyn a gorchmynion erlyn ategol; a defnyddio cosbau ar y cyd.

Golyga atebolrwydd ein bod yn cymryd cyfrifoldeb dros ein penderfyniadau ac y byddwn yn eu cyfiawnhau lle y bo'n briodol. Mae ein gwaith papur hysbysiadau, gorfodi a chosbau yn cynnwys gwybodaeth berthnasol am sut i apelio a chwyno. Byddwn yn cefnogi adolygiadau gan y llywodraeth o'n gweithgareddau rheoleiddio a gorfodi yn gyfnodol, a byddwn yn adrodd ar ein gweithgareddau gorfodi a chosbi fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth.

Ymgymeriadau Gorfodi

Yng Nghymru, daeth Gorchymyn Sancsiynau Sifil Amgylcheddol (Cymru) 2010 a Rheoliadau Sancsiynau Sifil Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2010 i rym ar 15 Gorffennaf 2010. Mae'r Gorchymyn yn caniatáu Cyfoeth Naturiol Cymru fel rheoleiddiwr i orfodi sancsiynau yng nghyswllt troseddau a nodir yn Atodlen 5 y Gorchymyn. Mae'n nodi'r weithdrefn yn ymwneud â'r sancsiynau fel y ddarpariaeth ar gyfer diffyg cydymffurfiaeth, costau gweinyddol, apeliadau a gofyniad i ddarparu canllawiau. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio nifer o Offerynnau Statudol eraill sy'n caniatáu i'r rheoleiddiwr orfodi sancsiynau sifil penodedig o ran diffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau hynny. Ni fwriedir i sancsiynau sifil ddisodli'r gyfraith droseddol ond bwriedir iddynt gynnig dull mwy cymesur, mwy effeithiol i weithredwyr sy'n cydymffurfio'n gyffredinol, gydag erlyniad troseddol yn dal i fod ar gael ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol.

Er bod sancsiynau sifil yn y Gorchymyn wedi trosglwyddo i Gyfoeth Naturiol Cymru, nid yw sancsiynau sifil ar gael ar hyn o bryd ar gyfer deddfwriaeth a weinyddir yn ffurfiol gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru neu Gomisiwn Coedwigaeth Cymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cael ei archwilio'n ddiweddar, gan y Swyddfa Rheoliadau Gwell, yn erbyn ei weithrediad o'r Cod Rheoleiddwyr. Canfuwyd gan yr archwiliad fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn reoleiddiwr cymwys ac felly cadwodd ei fynediad i barhau i ddefnyddio sancsiynau sifil.

Mae Sancsiynau Sifil ar gael ar gyfer adrannau penodol o'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975
- Deddf Eogiaid 1986
- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990
- Deddf Adnoddau Dŵr 1991
- Deddf y Diwydiant Dŵr 1991
- Deddf Draenio Tir 1991
- Deddf yr Amgylchedd 1995
- Deddf Dŵr 2003
- Rheoliadau Slwtsh (Defnydd Amaethyddol) 1989
- Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Gwaredu Biffenylau Polyclorinedig a Sylweddau Peryglus Eraill) (Cymru a Lloegr) 2000
- Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005
- Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) 2007

Ymdrinnir â Sancsiynau Sifil gan ddefnyddio'r mathau canlynol o hysbysiadau neu gosbau:

Hysbysiad cydymffurfio – Hysbysiad ysgrifenedig rheoleiddiwr yn gwneud camau i gydymffurfio â'r gyfraith neu i ddychwelyd i gydymffurfiaeth o fewn cyfnod penodedig, yn ofynnol, i sicrhau nad yw'r drosedd yn parhau neu'n digwydd eto.

Hysbysiad adfer – Hysbysiad ysgrifenedig rheoleiddiwr, yn ei gwneud yn ofynnol i gamau gael eu cymryd o fewn cyfnod penodedig i adfer niwed a achoswyd gan ddiffyg cydymffurfiaeth, cyn belled â phosibl.

Cost ariannol benodedig – Dirwy lefel uchel y gall y rheoleiddiwr ei gorfodi am fân drosedd benodedig.

Ymgymeriad gorfodi – Cynnig, a dderbynnir yn ffurfiol gan y rheoleiddiwr, i gymryd camau a fyddai'n gwneud iawn am ddiffyg cydymffurfiaeth â'i effeithiau.

Cosb ariannol newidiol – Cosb ariannol gymesur y gall y rheoleiddiwr ei gorfodi am drosedd fwy difrifol.

Hysbysiad terfynu – Hysbysiad ysgrifenedig sy'n ei gwneud yn ofynnol rhoi terfyn ar unwaith ar weithgaredd penodol sy'n achosi niwed difrifol neu risg sylweddol o achosi niwed.

O ganlyniad i droseddau Amgylcheddol perthnasol yn cael eu cyflawni, rydym wedi cael cynnig ymgymeriadau Gorfodi ar 18 achlysur gan y troseddwr neu ei gynghorydd cyfreithiol. O'r rhain, derbyniwyd 14, gwrthodwyd tri ac mae un yn dal i gael ei asesu.

Ar ôl i gynnig gael ei dderbyn, caiff ei asesu gan y Swyddog Ymchwilio a'r Gwasanaethau Cyfreithiol a gwneir argymhelliad i'r Panel Gorfodi Lleol cyn cymeradwyaeth gan Banel Gorfodi Cymru.

O'r tri a wrthodwyd, gwrthodwyd dau oherwydd hanes gorfodi blaenorol y troseddwr ac un oherwydd ei fod am drosedd nad oedd yn destun sancsiynau sifil ac ymgymeriadau gorfodi yn benodol.

O'r 14 o achosion a dderbyniwyd, roedd chwe achos am droseddau o dan Reoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) 2007, roedd un am drosedd echdynnu o dan y Ddeddf Adnoddau Dŵr, ond roedd y mwyafrif o'r achosion (11) o dan Adran 4 Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975, am ddigwyddiad llygru afon, i bob pwrpas, a wnaeth ladd neu niweidio pysgod neu fwyd i bysgod.

Yn yr 11 o achosion hyn, cyflawnwyd y brif drosedd o dan Reoliad 38 (1) (a) Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010, nad oes unrhyw sancsiynau sifil ar gael i Gyfoeth Naturiol Cymru ar ei chyfer. Fodd bynnag, yn yr achosion hyn, cafwyd gafael ar dystiolaeth o'r ymchwiliad a oedd yn dangos niwed i bysgod ac felly gellid gwneud a derbyn cynnig o ymgymeriad gorfodi.

O ganlyniad i'r ffaith i'r achosion hyn gael eu trin trwy ymgymeriad gorfodi, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi derbyn £28,058.79 mewn costau a adenillwyd ac wedi cytuno rhoddion elusennol o £245,626.49.

Rhannwyd yr arian hwn rhwng 20 o wahanol sefydliadau yng Nghymru, pum Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt, naw Ymddiriedolaeth Afonydd, dwy Hosbis, dau Glwb Genweirio, un Ymddiriedolaeth Camlas ac un Gymdeithas Rhieni ac Athrawon ysgol.

Rydym wedi cyflwyno chwe Hysbysiad o Fwriad i Gyflwyno Cosb Ariannol Benodedig. Tynnwyd un o'r rhain yn ôl wedi hynny. Talwyd y pump arall cyn cyflwyno'r Gosb Ariannol Benodedig. Mae talu ar y cam Hysbysiad o Fwriad yn golygu bod y derbynnydd yn talu hanner swm y gost. Felly derbyniwyd 2 x £150 gennym gan ddau gwmni a 3 x £50 gan dri unigolyn.

Ymgymeriadau Gorfodi

Rhif Cyfeirnod yr Achos	Rhagweithiol/ Ymatebol	Enw'r Troseddwr	Math o droseddwr	Trosedd		Dyddiad Derbyn neu Wrthod (dyddiad y dychwelwyd y ffurflen i'r cynigydd) – Gwybodaeth/Diweddariadau	Rhodd Elusennol	Derbynydd (Lle nad yw adferiad o'r drosedd/troseddau gwreiddiol yn bosibl, gweithred a fydd yn sicrhau budd neu welliant cyfatebol i'r amgylchedd)
				Deddf	Adran			
W/SE/WDC/12/1454	Ymatebol	Celsa Steel Service UK Limited	Cwmni	Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pac	rheoliad 40(1)(a)	Cofrestrwyd gyda Chynllun Cydymffurfiaeth Valpak a pherson Enwebedig i oruchwylio cydymffurfiad	£1,800.00	Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent
W/SE/DQC/13/1589/V2	Ymatebol	John Liscombe Limited	Cwmni	Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pac	rheoliad 40(1)(a)	Cofrestriad gyda Chynllun Cydymffurfiaeth Valpak a mabwysiadu methodoleg gadarn ar gyfer cyfrifo cyfrifiadau deunydd pacio	£9,000.00	Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent
W/SE/DQC/13/1597	Ymatebol	The Authentic Curry Company Limited	Cwmni	Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pac	rheoliad 40(1)(a)	Cofrestriad gyda Chynllun Cydymffurfiaeth a mabwysiadu methodoleg gadarn ar gyfer cyfrifo cyfrifiadau deunydd pacio a nodiadau atgoffa	£3,356.02	Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Brycheiniog
W/SH/EM/3/14/58	Rhagweithiol	Team Precision Assemblies Limited	Cwmni	Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975	section 4	Ataliwyd yr holl ollyngiadau. Rhoddwyd cynllun gweithredu ar waith i ddatrys y broblem a datrys problemau hirdymor gyda gwrthfesurau cadarn	£2,500.00	Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Gaerfyrddin
W/SE/15/1718	Rhagweithiol	Clarks UK Limited	Cwmni	Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pac	rheoliad 40(1)(a)	Cofrestrwyd gyda chynllun cydymffurfiaeth a rhoddwyd taenlen ar waith i gyfrifo'r rhwymedigaeth ar gyfer y blynyddoedd i ddod.	£2,798.64	Hosbis Plant Tŷ Hafan
4209	Ymatebol	P B Gelatins	Cwmni	Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975	adran 4	Cyflawnwyd gwaith trwsio. Gwaith gwella i bympiau elifion. Archwiliadau dyddiol o berfformiad a chyflwr pympiau. Cynhaliwyd arolwg draeniau	£20,000.00	Ymddiriedolaeth Afonydd De-ddwyrain Cymru
4197	Ymatebol	Dwr Cymru (Afon Gwilli)	Cwmni	Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975	adran 4	Cynhaliwyd arolwg amgylcheddol llawn. Gosodwyd larymau telemetreg. Tanc storio yn destun amserlen lanhau reolaidd. Glanhau'r corff dŵr.	£12,500.00	Afonydd Cymru
3992	Ymatebol	Fferm Langdon Mills	Cwmni	Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975	adran 4	Cyflogwyr ymgynghorydd i adolygu camau gweithredu a roddwyd ar waith eisoes ac i argymell unrhyw gamau pellach.	£5,000.00	Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Benfro
3960	Rhagweithiol	Ystâd Rhug	Cwmni	Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975	adran 4	Peidio â gwneud gwaith yn y dyfodol heb ganiatâd Cyfoeth Naturiol Cymru yn y dyfodol	£750.00	Clwb Pysgota Corwen a'r Cylch
4354	Ymatebol	Dwr Cymru (Ty Gwyn)	Cwmni	Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975	adran 4	Gwnaed gwaith unioni	50,000 (10,000) & 20,000	£40,000 i Ymddiriedolaeth Dyfrdwy Cymru, £10,000 i Glwb Pysgota Wrecsam a'r Cylch, £20,000 i Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru
4355	Ymatebol	Dwr Cymru (Alwen WTW)	Cwmni	Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975	adran 4	Gwella ac uwchraddio'r gwaith. Newidiwyd o geulydd alwminiwm i geulydd seiliedig ar haearn. Cafwyd gwared ar y slwtsh yn y morlyn.	5,000 & £27,000	£5000 i Ymddiriedolaeth Dyfrdwy Cymru a £27,000 i'r Gymdeithas Cadwraeth Forol
4412	Rhagweithiol	Glasnant Morgan	Unigolyn	Y Ddeddf Adnoddau Dŵr	adran 24/25		£0.00	Gwella'r cynefin yn yr afon trwy leihau'r graddiant yn arwain at y gronfa a chreu pyllau i bysgod orffwyso ynddynt wrth iddynt symud i fyny'r afon. Bydd hyn yn cael ei wneud trwy adleoli cerrig mawr sydd ar y safle eisoes
4039	Rhagweithiol	Hempel UK Limited	Cwmni	Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pac	rheoliad 40(1)(a)	Cofrestrwyd gyda Chynllun Cydymffurfiaeth Veolia	£2,436.88	Ymddiriedolaeth Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu
7390	Rhagweithiol	Heathpak Limited	Cwmni	Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pac	rheoliad 40(1)(a)	Cofrestrwyd gyda Chynllun Cydymffurfiaeth a chrëwyd y swydd Rheolwr Cydymffurfiaeth	£3,130 & £3130	Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Chyfeillion Ysgol Eglwys yng Nghymru Osbastoc a Hosbis y Cymoedd
7627	Rhagweithiol	Richard Williams `	Unigolyn	Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975	adran 4	Ailgyfeiriwyd y ffrwd. Bydd unrhyw waith yn y dyfodol yn cael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan Gyfoeth Naturiol Cymru	£11,500.00	Talu costau adeiladu ysgol bysgod

Ein Data

System TG ar-lein newydd yw ein System Tramgwyddo, Troseddu, Cyfreithiol, Gwybodaeth a Hysbysu (COLINS) a ddatblygwyd i ddisodli'r systemau etifeddol a oedd ar waith tan fis Ionawr 2016. Mae ein holl staff sy'n ymchwilio i droseddau posibl neu sydd â swyddogaeth drwyddedu benodol yn y Ganolfan Gofal Cwsmeriaid yn defnyddio'r system newydd erbyn hyn.

Mae COLINS fel system yn dal i fod yn ei fabandod ac mae'n ddisgwyliedig bod nifer o broblemau cychwynnol. Rydym wedi cynnal adolygiad ac wedi nodi nifer o faterion dysgu gyda'r system. Rydym yn gweithio i wella'r rhain ac rydym yn disgwyl y bydd Adroddiad Rheoleiddwyr 2017 yn gallu cynnig darlun mwy manwl o'n gweithgarwch gorfodi.

Cofnodwyd 538 o dramgwyddau Rheoleiddio gennym ar COLINS yn 2016, ac o'r 538 o gofnodion hyn mae 64.8% yn ymwneud â rheoliadau gwastraff a dŵr, mae 10.6% yn ymwneud â rheoleiddio pysgodfeydd a physgod cregyn ac nid nodwyd unrhyw gyhuddiad yn 15.8% o'r cofnodion (ond o'r wybodaeth a adroddwyd maent yn debygol o ymwneud â rheoliadau gwastraff neu ddŵr), mae 4.3% o'r achosion yn droseddau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad a gellir priodoli 2.8% i droseddau Coedwigaeth

Tramgwydd Rheoleiddio	**Cyfanswm**
Deddf Rheoli Llygredd (Diwygio) 1989	2
Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010 (troseddau Gwastraff)	199
Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010 (troseddau Dŵr)	61
Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (troseddau Gwastraff)	65
Deddf Coedwigaeth 1967	15
Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975	48
Deddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1968	9
Deddf Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol 2010	2
Deddf Adnoddau Dŵr 1991	22
Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981	23
System Masnachu Allyriadau yr Undeb Ewropeaidd	3
Parthau Perygl Nitradau	1
Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio)	1
Rheoliadau Cludo Gwastraff ar Draws Ffiniau 2007	1
Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005	1
Ni Nodwyd Cyhuddiad	85
Cyfanswm	**538**

www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Canlyniadau Gorfodi

Mae'r wybodaeth a ddarperir isod yn dangos ein canlyniadau gorfodi o 1 Ionawr 2016 tan 31 Rhagfyr 2016. Bydd nifer o achosion wedi cychwyn cyn 2016 ond fe'u cwblhawyd yn ystod y flwyddyn. Bydd achosion hefyd a gychwynnwyd yn ystod 2016 sydd naill ai'n dal i gael eu hymchwilio neu yn y system llysoedd, a bydd y rhain yn cael eu cofnodi yn ein hadroddiad ar gyfer 2017.

Dim Camau Pellach

Bydd unrhyw achos a ymchwiliwyd ac y canfuwyd ei fod yn ddi-sail, neu fod trosedd wedi cael ei chyflawni ond nad oedd troseddwr y gellid ei nodi neu na chanfuwyd tystiolaeth ddigonol yn cael ei gofnodi fel dim camau pellach.

DIM CAMAU PELLACH 2016	
Cyfanswm yr achosion	40
Cyfanswm y troseddwyr	58
Cyfanswm yr achosion o ddim camau pellach	**60**

Cyngor a Chyfarwyddyd

Ein nod yw darparu cyngor a chyfarwyddyd i gynorthwyo gweithredwr neu unigolyn i ddychwelyd i gydymffurfiaeth ar unrhyw adeg. Yng nghyd-destun gorfodi, byddwn fel rheol yn darparu cyngor a chyfarwyddyd ar ôl i drosedd gael ei chyflawni neu pan fyddwn o'r farn bod trosedd yn debygol o gael ei chyflawni. Pan fyddwn yn darparu cymorth cydymffurfio o'r math hwn mae heb ragfarnu unrhyw ymateb gorfodi arall a allai fod yn ofynnol. Gall y cymorth cydymffurfio hwn fod yn llafar neu'n ysgrifenedig, ond bydd yn cael ei gofnodi. Mewn achos(ion) o ddiffyg cydymffurfiaeth parhaus neu achos(ion) pellach, gallai hyn ddylanwadu ar y dewis ymateb dilynol.

Pan fo'n bosibl, byddwn hefyd yn ceisio sicrhau ateb i'r broblem a achosodd droseddau i gael eu cyflawni a fydd yn para.

CYNGOR A CHYFARWYDDYD 2016	

www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Cyfanswm yr achosion	94
Cyfanswm y troseddwyr	107
Cyfanswm yr achosion lle y rhoddwyd cyngor a chyfarwyddyd	**153**

Hysbysiadau Cosb Benodedig

Cosb ariannol am drosedd yw Hysbysiad Cosb Benodedig, a orfodir gan y rheoleiddwyr ac y gellir ymdrin ag ef trwy erlyniad yn y llysoedd troseddol os na chaiff ei dalu. Mae Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gael i ni ar gyfer nifer gyfyngedig o droseddau. Pan fydd Hysbysiad Cosb Benodedig yn cael ei gyflwyno, mae talu'r gosb yn bodloni'r rhwymedigaeth. Pan fydd hyn yn digwydd, bydd cofnod o dalu'r Hysbysiad Cosb Benodedig yn cael ei gadw ac yn cael ei drin yn yr un ffordd â chofnod sy'n deillio o rybudd.

Pan fydd Hysbysiad Cosb Benodedig yn cael ei orfodi gennym ni ond na fydd yn cael ei dalu, bydd y derbynnydd yn cael ei erlyn am y drosedd wreiddiol fel rheol.

HYSBYSIAD PENODEDIG 2016	
Cyfanswm yr achosion	17
Cyfanswm y troseddwyr	20
Cyfanswm yr hysbysiadau a anfonwyd	**22**

Sancsiynau Sifil Eraill

Mae rhai cynlluniau yn cyflwyno cosbau sifil am droseddau penodol. Yng Nghynllun Masnachu Allyriadau yr Undeb Ewropeaidd, o ran gosodiadau sefydlog a hedfan, mae'r ddeddfwriaeth yn nodi cosbau sifil ar ffurf cosbau ariannol.

Yng Nghynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon, mae'r ddeddfwriaeth yn nodi gwahanol gosbau sifil, ar ffurf cosbau ariannol, cyhoeddi'r diffyg cydymffurfiaeth, pennu ffigur allyriadau blynyddol, y gofyniad y dylai lwfansau ychwanegol gael eu hildio, lleoliad ar waelod y cynghreiriau perfformiad ac atal cyfrif cofrestrfa.

Yn y ddau gynllun uchod, cyflwynir lefel y cosbau ariannol yn gyffredinol yn y ddeddfwriaeth. Ar gyfer cosbau penodol, mae cyflwyno'r gosb yn orfodol. Ar gyfer eraill,

www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

rhoddir grym i ildio neu addasu'r gosb ond dim ond yn unol â'r disgresiwn cyfyngedig a nodir yn y ddeddfwriaeth.

ALLYRIADAU NWYON TŶ GWYDR 2016	
Nifer y cyhuddiadau	**3**

Rhybudd

Hysbysiad ysgrifenedig ein bod yn credu bod trosedd wedi cael ei chyflawni yw rhybudd. Gall yr hysbysiad fod yn llythyr neu'n rhybudd safle a gyflwynir ar safle fel rheol neu fel arall o ganlyniad i ymweliad cydymffurfiaeth â safle neu weithgaredd trwyddedig.

Bydd yn cael ei gofnodi a gallai, os bydd diffyg cydymffurfiaeth bellach, ddylanwadu ar y dewis dilynol o sancsiwn.

RHYBUDDION 2016	
Cyfanswm yr achosion	90
Cyfanswm y troseddwyr	100
Cyfanswm y rhybuddion	**113**

Rhybudd Ffurfiol

Rhybudd ffurfiol yw'r derbyniad ysgrifenedig gan droseddwr ei fod wedi cyflawni trosedd a gellir ei ddefnyddio dim ond pan ellid fod wedi gwneud erlyniad yn briodol. I'r perwyl hwn, mae'n wahanol i rybudd ffurfiol fel y'i disgrifir uchod, sy'n gofnod a rhybudd yn unig am drosedd sydd wedi cael ei chyflawni neu a allai gael ei chyflawni. Mae'r rhybudd ffurfiol yn sancsiwn troseddol a gofnodir yn ffurfiol a fydd yn cael ei gyflwyno yn y llys os bydd troseddu pellach. Mae'n wahanol i orfodi sancsiwn sifil gan yr ystyriwyd fod yr amgylchiadau a arweiniodd at y drosedd yn briodol ar gyfer erlyniad ac, yn wir, byddai ailadrodd troseddu tebyg yn debygol o arwain at ymateb o'r fath.

Bwriedir i rybuddion ffurfiol fod yn arf ataliol i droseddwr ac mae'n yn briodol ar gyfer achosion, er y gellid sefydlu erlyniad, lle mae ffactorau eraill yn lliniaru yn erbyn hyn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni ystyried y prawf o dan y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron, sef pa un a oes tystiolaeth ddigonol yn ogystal â'r ffactorau buddiant y cyhoedd dan sylw.

Byddwn yn erlyn ar sail y drosedd wreiddiol fel rheol pan na dderbynnir rhybudd ffurfiol.

RHYBUDDION 2016

www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Cyfanswm yr achosion	50
Cyfanswm y troseddwyr	59
Cyfanswm y rhai a gyhuddwyd a rybuddiwyd	**75**

Erlyn

Mae'r sancsiwn o erlyn ar gael ar gyfer pob trosedd o dan y gyfraith. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n sefydlu'r darpariaethau cosb yn rhoi cwmpas sylweddol i'r llysoedd gosbi troseddwyr ac atal eraill. Gellir carcharu a chyflwyno dirwyon anghyfyngedig mewn rhai achosion.

Pan fyddwn yn penderfynu bod sancsiwn troseddol yn briodol, byddwn yn asesu'r achos yn unol â gofynion y Cod Ymarfer ar gyfer Erlynwyr y Goron cyn cychwyn erlyniad.

Rydym yn cydnabod bod erlyniad yn fater difrifol y dylid ei ddilyn dim ond ar ôl ystyriaeth lawn o'r goblygiadau a'r canlyniadau.

Pan benderfynir mai erlyniad yw'r dewis mwyaf priodol o sancsiwn, mae'n rhaid i ni fodloni'r prawf a nodir yn y Cod Ymarfer ar gyfer Erlynwyr y Goron, i benderfynu pa un a oes tystiolaeth ddigonol i fod yn fodlon bod yr erlyniad er budd y cyhoedd.

ERLYNIADAU 2016				
Canlyniad	**Euog**	**Ni Chynigiwyd Tystiolaeth**	**Profwyd mewn Absenoldeb**	**Cyfanswm Cyffredinol**
Nifer y Cyhuddiadau	90	34	18	**142**
Dirwyon	£208,136.00	£0.00	£31,385.00	**£239,521.00**
Costau a Ddyfarnwyd	£104,628.60	£0.00	£9,248.00	**£113,876.60**
Gordal Dioddefwyr	£3,682.00	£0.00	£547.00	**£4,229**

Gorchmynion a orfodir gan y Llys yn ategol i erlyniad

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Erlynwyr y Goron yn ei gwneud yn ofynnol i ni wneud cais am iawndal a gorchmynion ategol, fel gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol a

www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

gorchmynion cymryd eitemau, ym mhob achos priodol. Rhestrir y gorchmynion ategol y gall llys eu gwneud yn dilyn euogfarn isod:

Anghymhwyso cyfarwyddwyr;

Mae'r llys wedi anghymhwyso dau gyfarwyddwr.

Cymryd asedau – Deddf Enillion Troseddau 2002;

Gweler y tabl isod

Gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol;

Ni wnaed unrhyw orchmynion gan y llys.

Fforffedu offer a ddefnyddiwyd i gyflawni'r drosedd;

Mae'r llys wedi gorchymyn fforffediad mewn un achos.

Anghymhwysiad o yrru;

Dim.

Iawndal;

Gweler y tablau Deddf Enillion Troseddau 2002 isod.

Atafael cerbydau;

Dim.

Adferiad – o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.
Mae'r llys wedi gwneud dau orchymyn o dan Reoliad 44 Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010.

Gallwn hefyd ystyried cymhwysedd unigolyn i fod yn ddeiliad rhai trwyddedau Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol neu pa mor fuddiol yw hi i unigolyn barhau i fod yn gludydd neu frocer gwastraff cofrestredig.

www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Enillion Trosedd (Cynllun Cymell Adferiad Asedau)

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gorff a adnabyddir fel corff a alluogir gan y Ddeddf Enillion Trosedd, sy'n golygu ein bod yn gorff cyhoeddus sy'n cymryd rhan uniongyrchol fel ymchwilydd, erlynydd ac awdurdod gorfodi ac, fel y cyfryw, mae gennym ganiatâd i wneud cais yn llys y goron am orchymyn cymryd asedau. Mae'r ymadrodd 'gorchymyn cymryd asedau' yn gamenw gan nad yw'r gorchymyn ei hun yn cymryd unrhyw eiddo ond, yn hytrach, mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r diffynnydd dalu swm o arian. Y 'swm adferadwy' yw'r enw ar y swm hwn. Bydd hwn naill ai (a) swm llawn yr hyn y mae'r llys wedi ei ganfod yw ei elw o'i ymddygiad troseddol neu (b) gwerth gweddill asedau'r diffynnydd, a adnabyddir fel y 'swm sydd ar gael'. Mae'r cam o gymryd asedau ar gael dim ond ar ôl cael y diffynnydd yn euog yn dilyn ple neu brawf.

Caiff ein holl dderbyniadau cymryd asedau eu cyflwyni'n uniongyrchol gan y llysoedd i'r Swyddfa Gartref, sy'n ad-dalu hyd at 37.5% o'r swm sy'n cael ei adfer i ni. Mae'r Llywodraeth yn cadw 50% ar unwaith. Caiff y taliad ei wneud yn y chwarter ariannol yn dilyn dyddiad derbyn yr arian a adferwyd. Er enghraifft, nid yw arian a dalwyd i gronfeydd y llys yn ystod Ionawr, Chwefror, Mawrth 2015 (sef chwarter 4 y flwyddyn ariannol) yn cael eu derbyn gan y corff dynodedig, Cyfoeth Naturiol Cymru, tan ddiwedd chwarter 1 y flwyddyn ariannol ddilynol, h.y. Mehefin 2015, mewn gwirionedd. Mae'r gyfran o 12.5% sy'n weddill yn cael ei derbyn gan y gwasanaeth llysoedd at ddibenion gorfodi.

Rydym yn cael ein hannog i ail-fuddsoddi arian cymhelliad mewn gweithgarwch adfer asedau neu gynyddu capasiti ymchwilio ariannol. Mae'r Swyddfa Gartref yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau gyfrifyddu eu gwario yn y maes hwn. Mae'n ofynnol i unrhyw arian nad yw'n cael ei wario gael ei ddychwelyd i'r Swyddfa Gartref.

www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Gan mai dyma ein Hadroddiad Rheoleiddio cyntaf, mae'r data cymryd asedau ar gyfer y tair flwyddyn ariannol ddiwethaf wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad.

2013

Dyddiad y gorchymyn	Diffynnydd	Budd a aseswyd	Swm y gorchymyn	Taliad a wnaed	Swm sy'n ddyledus
04/03/2013	1	£35,000.00	£35,000.00	£35,000.00	
18/03/2013	2	£213,525.59	£213,525.59	£213,525.59	
04/03/2013	3	£14,751.00	£14,751.00	£15,194.22	
CYFANSWM			**£263,276.59**	**£263,719.81**	

Talodd diffynnydd rhif 3 log yn y swm o £443.22 yn ogystal â'r taliad llawn a oedd yn ddyledus oherwydd taliad hwyr y gorchymyn.

Blwyddyn dreth 2013/14

Dyddiad y gorchymyn	Diffynnydd	Budd a aseswyd	Swm y gorchymyn	Taliad a wnaed	Swm sy'n ddyledus
07/05/2013	1	£63,750.00	£63,750.00	£64,738.22	
06/06/2013	2	£56,110.64	£2,000.00	£2,003.73	
06/06/2013	3	£9,835.75	£9,835.75	£9,835.75	
19/07/2013	4	£1,569,801.85	£218,702.74	£9,349.81	£209,352.93
19/07/2013	5	£1,569,801.85	£78,427.39	£47,032.39	£31,395.00
30/01/2014	6	£39,144.00	£39,144.00	£39,144.00	
CYFANSWM			**£411,859.88**	**£172,103.90**	**£240,747.93**

Talodd diffynyddion rhif 1 a rhif 2 log yn dod i gyfanswm o £991.95 yn ogystal â'r taliad llawn a oedd yn ddyledus oherwydd taliad hwyr eu gorchmynion.

Mae diffynyddion rhif 4 a rhif 5 wedi cyflawni dedfrydau o garchar diofyn oherwydd iddynt fethu â thalu'r gorchymyn llawn a oedd yn cynnwys swm ar gyfer 'asedau cudd'. Mae camau gan y llysoedd i adfer symiau sy'n weddill yn parhau.

Blwyddyn dreth 2014/15

Dyddiad y gorchymyn	Diffynnydd	Budd a aseswyd	Swm y gorchymyn	Taliad a wnaed	Swm sy'n ddyledus
19/06/2014	1	£1,548,989.00	£23,517.54	£23,517.54	
26/09/2014	2	£1,727,367.00	£95,091.00	£95,091.00	
26/09/2014	3	£1,727,367.00	£158,520.85	£165,652.45	
14/11/2014	4	£3,440,652.04	£227,906.09	£228,994.62	
13/03/2015	5	£60,000.00	£60,000.00	£60,000.00	
CYFANSWM			**£565,035.48**	**£573,255.61**	

Talodd diffynnydd rhif 3 log yn y swm o £7,131.60 yn ogystal â'r taliad llawn oherwydd taliad hwyr y gorchymyn.

www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Nid yw diffynnydd rhif 4 wedi ymddangos yn y llys eto ar gyfer achos gorfodi pellach. Talwyd llog o £1,088.53 gyda swm o £19,224.45 mewn llog yn dal i fod yn ddyledus.

Blwyddyn dreth 2015/16

Dyddiad y gorchymyn	Diffynnydd	Budd a aseswyd	Swm y gorchymyn	Taliad a wnaed	Swm sy'n ddyledus
01/05/2015	1	£874,392.97	£400,000.00	£42,435.85	£357,564.15
19/10/2015	2	£60,000.00	£60,000.00	£60,000.00	
03/07/2015	3	£30,000.00	£30,000.00	£31,551.78	
CYFANSWM			**£490,000.00**	**£133,987.63**	**£357,564.15**

Talodd diffynnydd rhif 3 log yn y swm o £1,551.78 yn ogystal â'r taliad llawn oherwydd taliad hwyr y gorchymyn.

O'r 17 o orchmynion a ddangosir uchod, talwyd 14 yn llawn gyda phump o ddiffynyddion yn talu taliadau llog yn ychwanegol at y gorchmynion oherwydd taliad hwyr.

Cyfanswm y gorchmynion: **£1,730,171.95**

Cyfanswm a adferwyd hyd yn hyn: **£973,157.78**

www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000

© Cyfoeth Naturiol Cymru 2017

Cedwir pob hawl. Ceir atgynhyrchu'r ddogfen hon gyda chaniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru ymlaen llaw

Mae rhagor o gopïau o'r adroddiad hwn ar gael o:

E-bost: library@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk